

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ludlow Street Healthcare

Heatherwood Court

Unedau Caernarfon, Caerffili,
Aberteifi a Chas-gwent

Dyddiad yr arolygiad:

30 Hydref - 1 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 2 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	27
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	31
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	32
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Heatherwood Court fin nos 30 Hydref ac yn ystod dyddiau canlynol 31 Hydref ac 1 Tachwedd 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Caernarfon – adsefydlu wedi ei chloi 11 gwely (menywod)
- Uned Caerffili – diogelwch isel 12 gwely (menywod)
- Uned Aberteifi – diogelwch isel 12 gwely (menywod)
- Uned Cas-gwent – diogelwch isel 12 gwely (dynion)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig) ac un adolygydd lleig. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom dystiolaeth yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom fod angen gwelliannau o ran rheoli meddyginiaethau a monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yn darparu amrywiaeth dda iawn o weithgareddau a therapïau i gleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned
- Roedd staff ward ac uwch reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion gyda pharch
- Yn canolbwyntio ar ofal lleiaf cyfyngol i gynorthwyo gwellhad ac yn cynorthwyo'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac wedi eu hysgrifennu'n gynhwysfawr

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arferion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau
- Monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Gwella darpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol
- Cysondeb wrth ddarparu gwybodaeth i gleifion.

Nodwyd toriadau rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran Rheoli Meddyginiaethau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Heatherwood Court wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Heatherwood Court, Ffordd Llantrisant, Pontypridd, CF37 1PL.

Ysbyty rhywiau cymysg ag unedau ar gyfer rhywiau penodol yw'r lleoliad. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru i beidio â rhoi llety i fwy na 47 o gleifion a rhwng 18 a 64 oed; roedd 44 o gleifion ar adeg yr arolygiad.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ym mis Rhagfyr 2007.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y Rheolwr Cofrestredig a Rheolwr Cyffredinol yr Ysbyty. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys:

- Y Cyfarwyddwr Meddygol, Seiciatrydd Ymgynghorol ac Arbenigwr Cyswllt
- Rheolwr Arweiniol Clinigol, pedwar Rheolwr Uned a thimau o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth
- Seicolegydd Arweiniol, dau Seicolegydd Clinigol, Seicolegydd Fforensig, Ymarferydd Seicolegol, pedwar Gweithiwr Adfer Seicoleg
- Pennaeth Therapiau, Uwch Therapydd Galwedigaethol, Therapydd Galwedigaethol, Technegydd Therapi Galwedigaethol, tri Hyfforddwr Sgiliau Bywyd a Hyfforddwr Iechyd a Llesiant.

Gallai'r tîm hefyd gael mynediad at Ffisiotherapi, Deietegydd a Therapi Lleferydd ac Iaith.

Cefnogwyd gweithrediad yr ysbyty gan dimau penodol o staff gweinyddol, ysgrifenyddol, ystadau, cadw tŷ ac arlwyo.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom yn gyffredinol fod y staff ward, yr uwch reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol yn cael ei darparu i'r cleifion i'w galluogi i wneud dewisiadau am eu gofal, eu triniaeth a'u llesiant. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth ar gael yn gyson ar draws yr ysbyty.

Roedd yr ysbyty yn cynnig cyfleoedd hybu, diogelu a gwella iechyd wedi eu cefnogi gan amrywiaeth dda o gyfleusterau ysbyty. Roedd y rhain yn cynnig rhaglenni integredig i'r cleifion ac amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cynorthwyo'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau er budd profiad y claf yn yr ysbyty ac ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Cawsom sgysiau â chleifion ym mhob un o bedair uned Heatherwood Court yn ystod yr arolygiad. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am y gofal yr oeddent yn ei dderbyn ar y cyfan, a dywedant wrthym eu bod yn cael eu trin gyda pharch.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty a oedd yn cynorthwyo cynnal a gwella llesiant y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmegu a hylendid personol. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon wedi ei harddangos yn gyson ym mhob un o'r pedair uned ac roedd gwybodaeth wedi ei hepgor mewn rhai manau.

Roedd y staff yn cwblhau archwiliadau hybu iechyd wrth dderbyn cleifion, ond nodwyd wrth adolygu dogfennau ar Uned Aberteifi nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau bob amser.

Nodwyd ar gyfer cleifion â diagnosis o anabledd dysgu nad oedd Pasbortau Ysbyty¹ ar waith pe bai derbyniad i ysbyty cyffredinol. Cadarnhaodd yr uwch reolwyr y byddai'r sefyllfa yn cael ei hunioni i sicrhau bod gan yr holl gleifion perthnasol Basbort Ysbyty cyffredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn gyson ym mhob un o'r pedair uned.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau archwiliadau hybu iechyd yn brydlon.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl gleifion perthnasol Basbort Ysbyty cyffredol.

Urddas a pharch

Gwelsom ar y cyfan fod y staff ward, yr uwch reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Yn gyffredinol, roedd y staff y siaradom â nhw yn angerddol am eu swyddi ac yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion gyda lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn dangos parch tuag at y cleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol mewn ymdrech i atal ymddygiadau cleifion rhag gwaethygu. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn derbyn agweddau gofalgarg moesgar ac ymatebol.

Fodd bynnag, roedd yn siomedig gweld dau grŵp o staff ar ddau wahanol achlysur ar wardiau Aberteifi a Chaernarfon gyda'i gilydd a ddim yn ymgysylltu

¹ Dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am rywun ag anabledd dysgu yw Pasbort Ysbyty, ac mae'n darparu gwybodaeth bwysig i staff ysbyty amdano fe a'i iechyd pan fydd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.

â'r cleifion ar y ward. Roedd y staff yn cymryd rhan mewn sgysiau rhyngddynt eu hunain gan wasgaru ar ôl sylwi ar aelod o'n tîm arolygu yn yr ardal. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn ofynnol i'r staff siarad â'i gilydd yn ystod eu shifft, roedd yn amlwg ar y ddau achlysur hyn bod y staff yn cymdeithasu rhyngddynt eu hunain ac nid yn ceisio ymgysylltu â chleifion ar yr uned.

Roedd polisiâu'r ysbyty a'r arferion staff a welwyd yn cyfrannu at gynnal urddas cleifion a gwella gofal ar sail unigol yn yr ysbyty. Roedd cyfarfodydd i adolygu a thrafod arferion i sicrhau bod y cyfyngiadau ar gleifion yn Heatherwood Court cyn lleied â phosibl ar sail risgiau cleifion unigol.

Ceir pedair uned rhyw penodol yn yr ysbyty ac mae gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gall y cleifion gael mynediad atynt trwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely i atal cleifion eraill rhag dod i mewn; gallai'r staff agor y cloeon os oedd angen.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg bod cleifion yn cael personoli eu hystafelloedd. Roedd gan y cleifion le storio digonol ar gyfer eu heiddo yn eu hystafelloedd. Roedd unrhyw eitemau yr ystyriwyd eu bod yn risg i ddiogelwch cleifion, fel raseli, erisolau, ac ati wedi eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob un o'r wardiau, a byddai'r cleifion yn gwneud cais am fynediad atynt.

Roedd paneli gwyllo yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff gynnal arsylwadau heb agor y drws a tharfu ar y claf o bosibl. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli gwyllo wedi eu cau ac yn cael eu hagor i gynnal arsylwadau cyn eu cau unwaith eto. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Nid oedd yr ystafelloedd gwely yn rhai en-suite, ond roedd digon o doiledau a chawodydd ar gael ar ddau lawr pob uned. Fodd bynnag, roedd arogl annymunol cryf yn ystafell gawod llawr isaf Uned Cas-gwent yn ystod noswaith gyntaf ein harolygiad. Cadarnhaodd y cleifion a'r staff fod hyn yn digwydd yn rheolaidd ac nad oedd y mater wedi cael ei ddatrys.

Roedd ystafelloedd addas ar bob ward i'r cleifion gyfarfod â'r staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd ystafell ymweld hefyd, yn nerbynfa'r ysbyty, a oedd ar gael i'r cleifion gyfarfod gydag ymwelwyr, gan gynnwys aelodau iau o'u teuluoedd. Fodd bynnag, er bod detholiad bach o lyfrau a theganau ar gyfer plant iau yn yr Ystafell Ymwelwyr, gellid ei datblygu ymhellach i fod yn fwy croesawgar i blant.

Roedd trefniadau addas ar gyfer mynediad at ffôn ar bob ward fel y gallai cleifion wneud a derbyn galwadau yn breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau cawod yn cael eu cadw'n rhydd rhag arogleuon annymunol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried gwelliannau i wneud yr Ystafell Ymwelwyr yn fwy croesawgar i blant.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd hysbysfyrddau ar y wardiau yn cynnig gwybodaeth fanwl a pherthnasol i gleifion.

Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn cynnwys gweithgareddau cleifion, gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a darpariaeth eiriolaeth, sut i wneud cwyn a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o anghysondeb o ran y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau, roedd angen rhoi sylw i rai manau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei harddangos yn gyson i gleifion ar bob un o'r pedair uned.

Fe'n hysbyswyd bod gwybodaeth a arddangosir ar gyfer cleifion yn cael ei gwirio yn rhan o'r archwiliad ar-alwad efydd rheolaidd² i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal ac ar gael i gleifion.

Roedd diffyg gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Cadarnhaodd uwch reolwyr yn ystod adborth ar yr arolygiad y byddent yn adolygu darpariaeth gwybodaeth i sicrhau bod hysbysiadau yn dangos bod y wybodaeth honno ar gael yn y Gymraeg hefyd.

² Byddai'r aelod ar-alwad Efydd yn dod i'r ysbyty dair gwaith yr wythnos i gynnal archwiliad o'r ysbyty y tu allan i oriau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn y Gymraeg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy ein harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â chleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Pan oedd cleifion dal i fod yn ansicr, neu y camddeallwyd yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyfathrebu, byddai'r staff yn egluro'n amyneddgar yr hyn yr oeddent wedi ei ddweud.

Roedd cyfarfodydd cynllunio beunyddiol yn cael eu cynnal bob bore ar bob uned i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol, ac ati.

Roedd cyfarfod wythnosol ar bob uned lle'r oedd cyfle i'r cleifion gynnig adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Roedd cleifion uned Caerffili yn ganmoladwy o'u cyfarfod wythnosol gan nodi eu bod yn derbyn adborth rheolaidd ar y materion maent yn eu codi. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir o siarad â chleifion ar wardiau eraill. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu strwythur a chynnwys y cyfarfod wythnosol ar bob uned i sicrhau bod y cleifion yn derbyn adborth ar unrhyw faterion y maent yn eu codi.

Roedd yr ysbyty hefyd yn cynnal cyfarfod 4Wardz misol lle gallai cynrychiolwyr cleifion o bob un o'r unedau gyfarfod ag uwch reolwyr yr ysbyty i drafod gweithrediad yr ysbyty a chodi unrhyw feysydd pryder.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Gyda chytundeb y cleifion, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion ar yr holl wardiau yn derbyn adborth rheolaidd ar y materion y maent yn eu codi.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pwyslais eglur ar adsefydlu gyda gofal cleifion unigoledig a gefnogwyd gan yr arferion lleiaf cyfyngol posibl, o ran cynllunio gofal ac arferion ward neu ysbyty.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol unigol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd y caniatâd gofynnol ar waith).

Roedd amrywiaeth eang o gyfleusterau a oedd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda i gefnogi'r ddarpariaeth o therapïau a gweithgareddau yn yr ysbyty. Roedd y tîm therapi galwedigaethol yn cynnal asesiadau a oedd yn asesu galluoedd cleifion a pha therapïau, cymorth a gweithgareddau fyddai o fudd i gynorthwyo gwellhad y claf.

Roedd hyfforddwyr sgiliau bywyd yn hwyluso gweithgareddau i'r cleifion ac roedd Hyfforddwr Iechyd a Llesiant yn darparu gweithgareddau ymarfer corff wedi'u teilwra yn briodol i ddiddordeb a gallu'r claf.

Roedd uned therapi a gweithgareddau ddynodedig yn yr ysbyty o'r enw The Hub. Roedd cyfleusterau The Hub yn cynnwys y Social Hub lle ceir caffi a siop yr oedd y ddau ohonynt yn cael eu gweithredu gan ddetholiad o gleifion. Roedd ystafell gemau â bwrdd pŵl, bwrdd tennis a bwrdd darts. Roedd ystafell gwaith coed a man ar gyfer dysgu sgiliau cynnal a chadw beic. Roedd campfa ag amrywiaeth dda o gyfarpar a chymysgedd o offer cardio a pheiriannau aml-
weithgaredd.

Roedd cegin therapi yn The Hub â thri man ar gyfer dysgu ac ymarfer sgiliau coginio. Roedd fflat un ystafell hefyd, lle gallai'r cleifion ddysgu ac ymarfer sgiliau byw beunyddiol a fyddai o fudd ar gyfer byw mwy annibynnol. Roedd nifer o ystafelloedd eraill, gan gynnwys yr ystafell aml-ffydd, ystafell gelf, dwy ystafell therapi, ystafell addysg ac ystafell gyfrifiaduron.

Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o raglenni addysg achrededig yn ystod eu hamser yn Heatherwood Court. Rhoddodd y staff enghreifftiau penodol o gynorthwyo cleifion gydag addysg yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion staff yn cyd-fynd â pholisïau sefydledig yr ysbyty ac roedd systemau yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal.

Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd cleifion rheolaidd i ganiatáu i'r cleifion gynnig adborth ar ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwynion ar waith yn Heatherwood Court. Mae'r polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion cleifion am wasanaethau yn yr ysbyty.

Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i hysbysu perthnasau a gofalwyr, gan gynnwys am sut i ddarparu adborth, yn nerbynfa'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn yr Ystafell Ymwelwyr yn gyfyngedig ar adeg yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd bod y wybodaeth yn cael ei stocio'n rheolaidd a chytunodd y darparwr cofrestredig yn ystod yr adborth y byddai archwiliad rheolaidd yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael yn yr Ystafell Ymwelwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynnal ac ar gael yn barod yn yr Ystafell Ymwelwyr.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac wedi ei baratoi gyda dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Mae gwelliannau diweddar i brosesau ac archwiliadau sydd ar waith i reoli risg wedi cynorthwyo'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwella llywodraethiad ac arferion staff o ran rheoli meddyginiaeth a monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd gofal yn cael ei ddarparu i'r cleifion gyda'r athroniaeth leiaf cyfyngol o ofal yn flaenllaw yng ngweithrediadau'r staff a oedd wedi ei nodi yng nghofnodion y cleifion.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y Cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr ysbyty yn darparu gofal cleifion unigoledig wedi ei ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac arferion ysbyty neu ward. Roedd hyn yn cynnwys Cynlluniau Cymorth Diogelwch cleifion unigol a ddatblygwyd gyda'r aelodau seicoleg ynghyd â chleifion unigol.

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty, ond roedd anghysondebau o ran eu defnydd ar draws yr ysbyty.

Yn ystod ein harolygiad â phwyslais penodol ym mis Medi 2017, roedd gennym bryderon sylweddol am yr arfer o gyflawni arsylwadau ar gleifion pan oeddent yn eu hystafelloedd gwely. Yn ystod yr arolygiad â phwyslais penodol, gwelsom rai aelodau staff yn cyfathrebu ar lafar yn unig â'r claf ac yn methu ag arsylwi'r claf i sicrhau ei fod yn ddiogel ac nad oedd yn ceisio niweidio ei hun.

Roedd yn gadarnhaol nodi, ers yr arolygiad â phwyslais penodol, bod y darparwr cofrestredig wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar yr arsylwadau cleifion yr oedd yr holl staff, parhaol, cronfa ac asiantaeth, yn eu cwblhau. Roedd yn ofynnol cwblhau'r hyfforddiant hwn cyn i unrhyw staff newydd ddechrau shifft yn yr ysbyty gan gael eu monitro gan y darparwr cofrestredig. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom un aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant yn ystod ei gyfnod sefydlu yn yr ysbyty cyn cychwyn ei shifft. Fodd bynnag, gwelsom hefyd na ddangoswyd y fideo hyfforddi yr oedd yn ofynnol ei wyllo i un aelod o staff asiantaeth yn rhan o'i hyfforddiant a'i gyfnod sefydlu; roedd yn ofynnol i'r aelod o staff hwn gyflawni arsylwadau yn rhan o'i shifft. Dywedom wrth yr uwch reolwyr am hyn er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei datrys gan eu hysbysu nad oedd y gweithdrefnau cywir wedi cael eu cyflawni.

Nodom hefyd yn ystod ein harolygiad â phwyslais penodol nad oedd y botymau galw nyrsys yn yr holl ystafelloedd gwely o fewn cyrraedd o wely'r claf. Roedd hyn yn golygu y byddai claf nad oedd yn gallu symud o'i wely yn cael trafferth fawr yn galw am gymorth os oedd angen. Cadarnhawyd yn ystod yr arolygiad hwn bod gwaith wedi cael ei gwblhau i sicrhau bod yr holl fotymau galw nyrsys o fewn cyrraedd i'r gwely. Roedd y darparwr cofrestredig wedi addasu'r archwiliad ar-alwad efydd i gynnwys gwirio bod gwelyau yn dal i fod wedi eu lleoli o fewn cyrraedd i'r botwm galw nyrs i atal y broblem rhag codi eto.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth yn ôl y gofyn; roedd y rhain yn cael eu dyrannu i'r staff pan oeddent yn cyrraedd yr ysbyty. Hefyd, roedd pwyntiau galw nyrsys mewn manau cymunedol yn ogystal ag ystafelloedd gwely'r cleifion.

Yn gyffredinol, roedd yr ysbyty wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a oedd yn sicrhau diogelwch cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd y staff yn gallu adrodd problemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty a oedd yn cadw cofnod o faterion a'r gwaith a oedd yn ofynnol ac wedi ei gwblhau. Hefyd, roedd uwch reolwyr yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ysbyty i adolygu'r amgylchedd.

Fodd bynnag, nodwyd yn ystod noswaith gyntaf ein harolygiad mai dim ond yn achlysurol yr oedd yr allwedd cerdyn i'r drws electronig i gael mynediad at y twll grisiau o lawr cyntaf Uned Cas-gwent yn gweithio. Gwnaeth y rheolwr ar-alwad a oedd yn ein hebrwng o gwmpas yr ysbyty y noson honno gais cynnal a chadw a chafodd y broblem ei datrys yn ystod yr arolygiad.

Fe'n hysbyswyd bod y prydlondeb i ddatrys y broblem hon yn nodweddiadol a bod tîm ystadau'r ysbyty yn ymatebol gydag atgyfeiriadau cyflym at gontractwyr yn ôl y gofyn. Gwelsom y tîm ystadau yn ymateb ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw trwy gydol yr arolygiad i ddatrys problemau amgylcheddol.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau rhwymynnau cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau rhwymynnau posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain.

Roedd ffenestri'r swyddfeydd nyrsio ar unedau Aberteifi a Chaerffili wedi eu gorchuddio gan bapur i raddau helaeth. Er mai gwybodaeth a arddangoswyd er budd y cleifion oedd hon, roedd yn golygu na ellid gweld llawer allan o'r swyddfeydd nyrsys ac, ar ward Caerffili, roedd yn atal y drych arsylwi rhag cael ei weld.

Roedd yr ysbyty yn cadw Cofnod Tueddiadau Dyddiol a oedd yn amlygu pryderon a risgiau i'r shifft nesaf. Cadarnhaodd y staff fod proses ar waith lle'r oeddent yn gallu cynyddu arsylwadau estynedig os oes angen a chynyddu niferoedd staffio i hwyluso hun pan fo'n berthnasol.

Roedd yr ysbyty yn defnyddio menter Safewards sy'n cynorthwyo staff i leihau risg a nifer yr achosion o ymddygiadau heriol trwy arferion gorau yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enwau'r claf/cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ataliaeth yn cael ei gofnodi, gan gynnwys pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad a safleoedd corff pob person a oedd yn rhan o'r ataliaeth.

Roedd hierarchaeth o ran llofnodi i gadarnhau digwyddiad a oedd yn sicrhau bod adroddiadau digwyddiad yn cael eu hadolygu'n brydlon gan aelod o'r tîm clinigol a oedd yn gysylltiedig â gofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch.

Roedd adroddiadau digwyddiad rheolaidd yn cael eu llunio a'u hadolygu ar lefel ysbyty a sefydliad fel y gellid adolygu a dadansoddi nifer y digwyddiadau. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol yn ôl y gofyn i ystyried meysydd penodol. Roedd y system adrodd digwyddiadau a'r amserlenni adrodd yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro i gynorthwyo wrth ddarparu gofal diogel yn Heatherwood Court.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r staff yn glynu eitemau at ffenestri'r swyddfeydd nyrsio.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ pwrpasol ar gyfer Heatherwood Court. Ac eithrio'r un ystafell gawod a nodwyd yn gynharach, roedd yr ystafell ymolchi gymunedol, y cawodydd a'r toiledau yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag annibendod. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo yn holl geginau a manau ymolchi'r wardiau. Fodd bynnag, sylwom fod hysbysiadau hylendid dwylo ar goll ar unedau Cas-gwent, Aberteifi a Chaerffili.

Roedd offer glanhau wedi ei storio a'i drefnu'n briodol. Gwelsom yn gyffredinol, trwy gydol yr arolygiad, fod yr ysbyty yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod.

Cadarnhaodd staff ward ar Uned Cas-gwent fod ganddynt stoc briodol o Gyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, roedd gan y ddwy uned arall a archwiliwyd (Aberteifi a Chas-gwent) fynediad at fenig diogelu personol yn unig, a dim cyfarpar arall. Cadarnhaodd y staff y byddent yn gallu cael mynediad at gyfarpar diogelu personol os oedd angen, ond byddai oedi dianghenraid cyn i hwn gael ei ddarparu o ran arall o'r ysbyty.

Roedd y dosbarthwyr gel hylendid dwylo ar Uned Aberteifi wedi cael eu cyfyngu oherwydd camddefnydd o'r cynnwys ac i atal y dosbarthwyr rhag cael eu difrodi a'u defnyddio fel gwrthrychau i achosi niwed. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i staff, ymwelwyr a chleifion gael mynediad at gel hylendid dwylo ar Uned Aberteifi i gynorthwyo mesurau rheoli heintiau.

Disgrifiwyd system o archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd hon gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau priodol yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith i hybu proses reolaidd ac effeithiol o lanhau'r wardiau ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Defnyddiwyd biniau plastig dynodedig ar gyfer storio a gwaredu offer miniog meddygol, fel nodwyddau hypodermig, yn ddiogel. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysiadau hylendid dwylo yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael yn barod ar bob ward.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i staff, ymwelwyr a chleifion gael mynediad at gel hylendid dwylo ar Uned Aberteifi i gynorthwyo gyda mesurau rheoli heintiau.

Maetheg

Roedd cleifion yn cael eu cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion bwyta ac yfed.

Canfuom fod cleifion yn cael dewis o brydau ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fwydlen amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym fod ganddynt ddewis o bethau i'w bwyta. Er bod y fwydlen wedi ei harddangos yn eglur ar Uned Aberteifi, nid oedd hyn yn cael ei ailadrodd ar draws pob ward.

Roedd diodydd ar gael trwy gydol y dydd ac roedd gan gleifion fannau storio diogel ar gyfer eu byrbrydau eu hunain yn ogystal â ffrwyth ffres sydd ar gael yn barod. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd ac yn teimlo ei fod o ansawdd da.

Roedd eitemau bwyd wedi eu difrodi yn un o'r oergelloedd cleifion ar Uned Caerffili. Roedd yn ymddangos bod hyn oherwydd casgliad o rew yng nghefn yr oergell.

Roedd gan gleifion fynediad at y ceginau ar y wardiau i baratoi eu prydau a'u byrbrydau eu hunain yn rhan o'u rhaglenni gwella unigol.

Gwiriom sampl o siartiau bwyd a siartiau pwysau ar gyfer y cleifion hynny a oedd eu hangen ac roedd y rhain wedi eu cwblhau'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod bwydlenni'n cael eu harddangos ar bob ward.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr oergell ar Uned Aberteifi yn gweithio'n iawn a bod eitemau wedi eu difrodi yn cael eu tynnu ohoni.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel ac roedd cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth wedi eu cloi. Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ar waith yn Heatherwood Court, ond gwelsom fod y defnydd o'r rhain yn anghyson ar draws yr ysbyty.

Roedd gan yr ysbyty Restr Gwirio Cymhwysedd Meddyginiaeth Nyrsio Dyddiol i gynorthwyo'r staff i reoli meddyginiaeth. Roedd yn amlwg bod y rhain wedi eu cwblhau fel sy'n ofynnol ar Uned Cas-gwent a oedd yn cynorthwyo i gynnal rheolaeth ddiogel meddyginiaethau ar y ward honno. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gan yr holl staff perthnasol ar unedau Aberteifi a Chaerffili.

Roedd tystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar yr oergell feddyginiaeth i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gweithgynhyrchydd. Fodd bynnag, nodwyd tri bwlch yn y cofnod tymheredd yn ystod mis Hydref ar Uned Aberteifi.

Er i'n harolygiad â phwyslais penodol ym mis Medi 2017 nodi bod Cyffur sy'n Agored i gael ei Gamddefnyddio yn y cwpwrdd Cyffuriau a Reolir ar Uned Aberteifi a oedd yn perthyn i glaf (dyddiedig Mai 2017) nad oedd yn yr ysbyty mwyach. Amlygwyd y mater ailadroddus hwn gennym a chafwyd gwared ar y rhain yn briodol yn ystod yr arolygiad hwn.

Ceir un nyrs gofrestredig fesul ward yn yr ysbyty yn ystod y shifft nos. Mae hyn yn creu anhawster o ran dosbarthu cyffuriau a reolir lle mae angen dwy nyrs gofrestredig³ i lofnodi bod meddyginiaeth a reolir wedi cael ei rhoi. Fe'n hysbyswyd y bydd nyrs gofrestredig yn dod o ward arall os oes angen rhoi meddyginiaeth a reolir. Fodd bynnag, o adolygu'r llyfr cyffuriau a reolir ar Uned Aberteifi, gwelwyd achos ym mis Hydref lle'r oedd un nyrs gofrestredig yn unig wedi llofnodi pan roddwyd cyffuriau a reolir. Cadarnhaodd uwch reolwyr yn ystod yr adborth ar yr arolygiad eu bod yn adolygu trefniadau ar gyfer cyffuriau a reolir yn ystod y shifft nos.

³ Mae'n ofynnol i ddwy nyrs gofrestredig fod yn atebol am ddefnydd Cyffuriau a Reolir, neu un nyrs gofrestredig gydag aelod o staff nyrsio anghofrestredig sydd wedi ei hyfforddi i gynorthwyo nyrsys cofrestredig.

Nodwyd hefyd nad oedd y manylion parhad tudalennau yn y cofnodion cyffuriau a reolir wedi eu cwblhau bob amser. Mae'r rhain yn cynorthwyo i gysoni cyfansymiau cyffuriau a reolir.

Roedd achos pan dim ond un nyrs a addasodd gydbwysedd y Lorazepam a lleihau'r cydbwysedd o ddau ampwl; nid oedd hyn wedi ei gyd-lofnodi a pharhaodd y staff gyda'r cydbwysedd llai heb gymryd unrhyw gamau pellach. Hysbyswyd yr uwch reolwyr yn yr ysbyty a dywedant y byddent yn ymchwilio i'r anghysondeb hwn.

Gwelsom fod Lorazepam heibio ei ddyddiad terfyn o fis Medi 2017 wedi ei storio yng nghlinig Caerffili. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw feddyginiaeth a oedd heibio ei dyddiad terfyn wedi cael ei rhoi. Cafwyd gwared ar y feddyginiaeth a oedd heibio ei dyddiad terfyn yn briodol yn ystod yr arolygiad.

Roedd y Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf ac yn cofnodi ei statws cyfreithiol o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl ym mhob un ohonynt ac eithrio un. Roedd y Siartiau MAR yn cynnwys copiâu o'r tystysgrifau cydsyniad i driniaeth ac wedi eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a rheswm wedi ei gofnodi pan na roddwyd meddyginiaeth.

Roedd gan y staff fynediad at bolisiâu darparwr cofrestredig perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd copiâu cyfredol o bolisiâu ar gyfer Rheoli Meddyginiaeth, Tawelu Cyflym a Meddyginiaeth yn ôl y Gofyn ar gael yn barod ar Uned Aberteifi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau'r rhestrau gwirio gofynnol i gynorthwyo i gynnal arferion rheoli meddyginiaeth ddiogel.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi tymheredd oergelloedd meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau priodol ar waith i ddsbarthu Cyffuriau a Reolir yn ystod shifftiau nos.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cofnodion Cyffuriau a Reolir yn cael eu cwblhau'n llawn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn archwilio dyddiadau terfyn meddyginiaeth yn rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad terfyn yn cael ei storio yn yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau cyfredol o bolisiau perthnasol ar gael ym mhob un o ystafelloedd clinig yr ysbyty.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod staff ar y ddwy ward yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd y Rheolwr Cyffredinol yn monitro'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant o ran diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed i sicrhau cydymffurfiad y staff â hyfforddiant gorfodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliad wythnosol o'r offer dadebru, roedd y staff wedi cofnodi pryd y cynhaliwyd y rhain i sicrhau bod yr offer yn bresennol. Er bod mwyafrif llethol yr eitemau yn gyfredol, nodom fod un eitem o lanweithydd dwylo dros flwyddyn heibio ei dyddiad terfyn ac roedd un offeryn yn disgwyl i galibrad blynyddol.

Yn ystod yr adborth ar yr arolygiad, trafodwyd gyda'r darparwr cofrestredig ein pryderon ailadroddus am leoliad yr offer dadebru ger y dderbynfa yn ystafell yr ymarferydd cyffredinol, cryn bellter o unedau Caerffili ac Aberteifi. Awgrymom hefyd y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried a oedd un set o offer dadebru yn ddigonol ar gyfer hyd at 47 o gleifion. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig y byddai'n ystyried canllawiau perthnasol ac yn adolygu lleoliad a chyfanswm yr offer dadebru yn yr ysbyty ac yn gwneud newidiadau y gallai'r adolygiad eu hawgrymu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl offer dadebru yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu cyfanswm a lleoliad offer dadebru'r ysbyty.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuom yn gyffredinol fod trefniadau llywodraethu ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i anghysondebau

mewn arferion staff, gan gynnwys y meysydd pryder a nodwyd o dan “Rheoli Meddyginiaeth” i sicrhau bod gofal diogel a chlinigol effeithiol ar draws yr ysbyty.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn gyfuniad o ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio a’u cynnal yn y swyddfa nyrsio wedi ei chloi, a gwybodaeth electronig, a oedd wedi ei diogelu gan gyfrinair. Gwelsom y staff yn storio’r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Er bod cofnodion gofal manwl ar gyfer cleifion, roedd y rhain wedi eu gwasgaru ar draws nifer o ffeiliau papur ac electronig a oedd yn ei gwneud yn fwy anodd eu llywio a’u hadolygu. Gallai nifer y gwahanol gofnodion cleifion arwain i staff fethu gwybodaeth neu beidio ag adolygu’r wybodaeth fwyaf cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r darparwr cofrestredig ystyried cydgrynhoi’r cofnodion nyrsio, cyn belled ag y bo’n ymarferol, gan sicrhau bod cyn lleied o ddyblygu â phosibl a chynnig mynediad haws at wybodaeth benodol.

Monitro’r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygom ddogfennau cadw statudol dau glaf ar un ward, Ward Cas-gwent. Adolygom hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith ar gyfer monitro defnydd y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) ar draws pob un o’r pedair ward.

Cadarnhawyd na chraffwyd ar ddogfennau cadw’r Ddeddf fel mater o drefn wrth drosglwyddo claf i Heatherwood Court o ysbyty arall, i sicrhau bod y penderfyniad i gadw yn cydymffurfio â’r Ddeddf, fel y cyfarwyddir gan baragraff 35.18 Cod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru (y Cod). Roedd y darparwr cofrestredig yn ddibynnol ar yr awdurdod cadw blaenorol i ddilysu’r dogfennau cadw statudol.

Yn ogystal â dilysu'r penderfyniad i gadw'r claf, byddai craffu ar y dogfennau statudol yn sicrhau a oedd Perthynas Agosaf⁴ y claf wedi cael ei adnabod neu pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod gan y claf Berthynas Agosaf.

Ni chynigiwyd copïau o'u papurau cadw i'r cleifion yn Heatherwood Court, yn unol â hawl statudol o dan baragraff 4.14 y Cod.

Nid oedd unrhyw gofnod bod gwybodaeth yn cael ei darparu fel mater o drefn i gleifion am eu hawliau o ran meddyginiaeth, yn unol â pharagraff 24.37 y Cod.

Roedd y Dystysgrif CO2 Cydsyniad i Driniaeth⁵ a oedd yn cael ei defnyddio yn yr ysbyty yn cyfeirio at y Cod blaenorol a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2016. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei ddogfennau yn cael eu diweddarau i gynnwys cyfeiriadau at y Cod cyfredol.

Nid oedd gan y darparwr cofrestredig wybodaeth cleifion briodol i gleifion a oedd yn cael eu cadw o dan Adran 37 'dybiannol'⁶. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol i gadw gyda chyfyngiad llys ar ryddhau o dan Adran 41. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir eu hawliau i gleifion yn berthnasol i'r adran y maent yn cael eu cadw yn unol â hi.

Roedd Rheolwyr Ysbyty⁷ yn anghyson wrth gofnodi'r manylion a oedd yn sail i'w penderfyniadau mewn Gwrandawiadau Rheolwr Ysbyty⁸ ac a oedd y claf wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad fel y cyfarwyddir gan baragraffau 38.42 - 38.44 y cod.

⁴ Person a ddiffinnir gan y Ddeddf sydd â hawliau a phwerau penodol o dan y Ddeddf o ran claf y mae'n berthynas agosaf iddo.

⁵ Mae CO2 yn cadarnhau bod y galluedd gan y claf i gydsynio i'r driniaeth a awdurdodir yn y ddogfen.

⁶ Pan fydd cyfyngiadau gwarchodol eu dedfryd droseddol yn dod i ben (y dyddiad y byddai'r person wedi cael ei ryddhau o'r carchar), os bydd y claf yn dal i fod angen rhagor o driniaeth gellir parhau i'w cadw yn yr ysbyty fel pe bai'n destun gorchymyn ysbyty Adran 37 anghyfyngedig, y cyfeirir ato'n gyffredin fel adran 37 dybiannol.

⁷ Y sefydliad (neu'r unigolion) sy'n gyfrifol am weithrediad y Ddeddf mewn ysbyty penodol.

⁸ Gwrandawriad gan reolwyr yr ysbyty a gynhelir i adolygu'r penderfyniad i gadw claf yn yr ysbyty.

Nid oedd copïau o bapurau cadw statudol ar ffeiliau ward cleifion wedi eu ffeilio'n systematig gyda ffurflenni statudol wedi eu copïo gefn wrth gefn â ffurflenni statudol eraill. Ni fyddai staff y wardiau yn gallu sicrhau eu hunain yn rhwydd felly bod penderfyniad i gadw claf unigol yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Ni farciwyd bob amser copïau o awdurdodiadau Seibiant Adran 17 a Thystysgrifau Cydsyniad i Driniaeth a oedd wedi dod i ben i ddangos nad oeddent yn ddilys mwyach, sy'n golygu y gallai'r staff gyfeirio atynt ar gam; yn unol â'r canllawiau ym mharagraffau 27.17 a 25.87 y Cod, yn eu trefn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan gleifion a gedwir Berthynas Agosaf sydd wedi ei adnabod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnig copïau o'u papurau cadw i'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir gwybodaeth i gleifion am eu hawliau o ran meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir gwybodaeth i gleifion am eu hawliau o ran eu hadran gadw.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rhesymeg sy'n sail i ganlyniad Gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty wedi ei chofnodi'n eglur ac a yw'r claf wedi cael ei hysbysu am y canlyniad.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o bapurau cadw statudol yn cael eu ffeilio'n systematig a'u bod ar gael i staff y wardiau.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y nodir yn eglur nad yw dogfennau sydd wedi dod i ben yn ddilys mwyach.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygom gynlluniau gofal cyfanswm o bump o gleifion.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn manteisio ar gryfder claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydliad ac annibyniaeth. Datblygwyd y rhain gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth ac roeddent yn cynnwys monitro iechyd corfforol a hybu iechyd da.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn gyffredin nad oedd staff yn cofnodi'n eglur unrhyw anghenion heb eu diwallu y gallai fod gan glaf wrth dderbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion heb eu diwallu yn cael eu cofnodi fel y gall y rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Er bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, roedd manylion yr adolygiad yn gryno ac nid oeddent yn cynnig tystiolaeth o'r cynnydd yr oedd y claf wedi ei wneud o ran bodloni amcanion ei gynllun gofal.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cael anawsterau yn sicrhau bod cydgysylltwyr gofal rhai cleifion yn y gymuned yn mynychu adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth. Roedd anawsterau hefyd wrth dderbyn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth blaenorol gan gydgyssylltwyr gofal cymunedol. Roedd y darparwr cofrestredig wedi cadw copïau o ohebiaeth i ddangos tystiolaeth o'r ymdrechion yr oedd wedi eu gwneud i gysylltu â chydgyssylltwyr gofal cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwerthusiad yn erbyn meysydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth yn ystyrlon ac yn adlewyrchu'r llwyddiannau neu'r anawsterau yn bodloni'r rheini i hysbysu'r broses anghenion heb eu diwallu a chynllunio gofal pellach.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion heb eu diwallu cleifion yn cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Cadarnhaodd y staff ar adeg ein harolygiad nad oedd unrhyw gleifion yn destun awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyffredinol fod staff yn gyfredol o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol / Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn Heatherwood Court wedi ei gefnogi gan Ludlow Street Healthcare. Gwelsom staff ymroddedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Roedd recriwtio yn cael ei wneud mewn proses agored a theg gydag archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth. Roedd y staff yn cyflawni hyfforddiant gorfodol rheolaidd, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Gwnaed hyn yn rhannol trwy raglen barhaus o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny yn cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Roedd gan uwch reolwyr a nodwyd cyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw yn darpariaeth y gwasanaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen gwella llywodraethu ac arfer staff o ran rheoli meddyginiaeth a monitro'r Ddeddf.

Roedd tystiolaeth, o sgysiau â staff, arsylwi ymgysylltiad y tîm amlddisgyblaeth, ac adolygu cofnodion cleifion, o waith tîm amlddisgyblaeth cryf yn Heatherwood Court. Gwnaeth y staff sylwadau ffafriol am weithio amlddisgyblaeth gan nodi eu bod yn teimlo bod aelodau staff eraill yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Heatherwood Court yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Ymdrin â chwynion a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Heatherwood Court ac yn gorfforaethol trwy feganweithiau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygom y sefydliad staffio yn Heatherwood Court a'r hyn a nodwyd ganddynt yn eu Datganiad o Ddiben. Roedd 8 o swyddi gwag nyrsys cofrestredig yr oedd y darparwr cofrestredig yn ceisio recriwtio iddynt.

Er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y rota staffio a allai godi oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system cronfa staff ar waith ac yn cynnig goramser. Roedd y darparwr cofrestredig hefyd yn defnyddio nyrsys cofrestredig asiantaeth; roedd yn amlwg o adolygu rotas staff bod y defnydd o nyrsys cofrestredig asiantaeth o unigolion rheolaidd a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a gyda'r grŵp cleifion yn gyffredinol, a oedd yn cynorthwyo gyda pharhad gofal i gleifion.

Adolygom yr ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff yn Heatherwood Court a chanfod bod y cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cyrsiau a chydymffurfiad staff unigol i'r rheolwr cyffredinol. Roedd y darparwr cofrestredig wrthi'n datblygu'r system adrodd fel y gellid llunio adroddiadau am ddisgyblaethau a wardiau unigol.

Roedd staff a gyflogwyd gan y darparwr cofrestredig yn rhan o Academi Ludlow Street Healthcare a oedd yn darparu hyfforddiant gorfodol i'r staff yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol yn rhan o'u datblygiad gyrfaoel. Cynorthwywyd rhai nyrsys cofrestredig i gwblhau ei Gradd Meistr Gwyddoniaeth mewn Nyrsio hefyd.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cyflwyno prosesau diwygiedig ar gyfer goruchwyllo fel bod y staff yn cofnodi goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol a oedd yn rhan o'u harfarniadau perfformiad a'u hadolygiadau datblygiad blynyddol (PADR).

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio Ludlow Street Healthcare a oedd ar waith yn Heatherwood Court. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Roedd tystlythyrau staff yn cael eu derbyn, archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal a chymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio cyn cyflogi.

Roedd yn ofynnol i'r staff gwblhau rhaglen sefydlu strwythuredig cyn gweithio yn Heatherwood Court.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a allai arwain at achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Yn cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Yn cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Yn bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad B – Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Heatherwood Court

Unedau: Caernarfon, Caerffili, Aberteifi a Chas-gwent

Dyddiad yr arolygiad: 30 Hydref - 1 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn gyson ym mhob un o'r pedair uned.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Adolygu'r holl wybodaeth ar draws y pedair uned a'i disodli yn ôl y gofyn. Sylwer: Efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth yn dal yn wahanol oherwydd gwahaniaethau rhwng y rhywiau a gwahanol fodelau gofal.	Carla Rawlinson	15/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau archwiliadau hybu iechyd yn brydlon.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Aiddosbarthu'r protocol parthed derbyn i nyrsys cymwysedig. Wrth dderbyn, pan fydd yr archwiliadau hybu iechyd yn cael eu cwblhau, bydd copïau yn cael eu hanfon at yr arweinydd clinigol i gael eu harchwilio.	Rebecca Conlon Rebecca Conlon	Cwblhawyd O'r derbyniad nesaf

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rhoddir sylw i unrhyw hepgoriad wedyn.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl gleifion perthnasol Basbort Ysbyty cyfredol.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cafwyd gafael ar y ddogfen basbort ac fe'i cwblhawyd ar gyfer cleifion perthnasol (h.y. y rheini â diagnosis o anabledd dysgu)	Rebecca Conlon	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau cawod yn cael eu cadw'n rhydd rhag arogleuon annymunol.	10. Urddas a pharch	Gwnaed ceisiadau cynnal a chadw a chadw tŷ. Trwsio seliwr, stêm-lanhau'r llawr.	Carla Rawlinson	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried gwelliannau i wneud yr Ystafell Ymwelwyr yn fwy croesawgar i blant.	10. Urddas a pharch	Rhoddwyd ystyriaeth i hyn ond ni fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud gan fod y teganau a'r llyfrau sydd ar gael wedi cael eu hadolygu ac ystyriwyd eu bod yn ddigonol (mae'r rhain yn cael eu storio mewn bocsys yn hytrach na chael eu harddangos i'n grŵp cleifion eu gweld) gan fod ymweliadau plant yn cael eu cyfyngu o gofio ein hymdrechion i sicrhau bod cyswllt â phlant yn digwydd oddi ar y safle, mewn cartrefi teuluol yn ddelfrydol.	Carla Rawlinson	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn y Gymraeg.	9. Gwybodaeth a chydysniad cleifion	Diweddarwyd y llawlyfr cleifion i gyfeirio cleifion at ofyn am wybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen. Hysbysiadau arddangos ar bob uned yn y Gymraeg a'r Saesneg yn nodi y dylid gofyn i'r staff os byddwch angen i unrhyw wybodaeth gael ei darparu yn y Gymraeg.	Carla Rawlinson	15/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion ar yr holl wardiau yn derbyn adborth rheolaidd ar y materion y maent yn eu codi.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Adolygu prosesau ar draws yr unedau a nodi arfer gorau, trafod mewn cyfarfod 4wardz a chyflwyno un fformat ar gyfer adborth ar draws y safle.	Rheolwyr yr Unedau	31/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynnal ac ar gael yn barod yn yr Ystafell Ymwelwyr.	5. Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion	Creu ffolder electronig ar Yriant Q sy'n cynnwys holl wybodaeth gofalmwr, ffrindiau a theuluoedd. Ychwanegu at restr wirio lletygarwch y Dderbynfa er mwyn galluogi i ddeunyddiau gael eu disodli pan nodwyd y cafwyd gwared arnynt.	Carla Rawlinson	15/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r staff yn glynu eitemau at ffenestri'r swyddfeydd nyrsio.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Cafwyd gwared ar yr eitemau; bydd yr archwiliad hwn yn cael ei ychwanegu at y rhestr wirio ar-alwad efydd a gynhelir ar draws y safle 3 gwaith yr wythnos.	Rebecca Conlon	8/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysiadau hylendid dwylo wedi eu harddangos fel sy'n ofynnol.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Adolygu'r safle ar gyfer hysbysiadau presennol i nodi diffygion ac arddangos hysbysiadau yn ôl y gofyn.	Arweinydd y Tîm Cadw Tŷ	15/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael yn barod ar bob ward.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Dosbarthwyr ffedogau a menig i gael eu gosod mewn cwpwrdd ym mhob cegin. Cypyrddau i gael eu labelu ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol.	Rheolwyr yr Unedau	15/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau	13. Atal a rheoli	Adolygu nifer a lleoliad dosbarthwyr gel	Arweinydd y Tîm Cadw Tŷ a	15/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod trefniadau priodol ar waith i staff, ymwelwyr a chleifion gael mynediad at gel hylendid dwylo ar Uned Aberteifi i gynorthwyo gyda mesurau rheoli heintiau.	heintiau a dadheintio	dwylo ar Uned Aberteifi. Nodi lleoliadau addas a disodli yn unol â hynny.	Rheolwr yr Uned	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod bwydlenni yn cael eu harddangos ar bob ward.	14. Maetheg	Bwydlenni i gael eu hailargraffu, eu lamineiddio a'u harddangos yng nghegin pob uned.	Helen Bevan a Rheolwyr yr Unedau	15/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr oergell ar Uned Aberteifi yn gweithio'n iawn a bod eitemau wedi eu difrodi yn cael eu tynnu ohoni.	14. Maetheg	Mae'r oergell wedi cael ei disodli.	Sarah Evans	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau'r rhestrau gwirio gofynnol i gynorthwyo i gynnal arferion rheoli meddyginiaeth diogel.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd archwiliad ar hap o'r "cofnod cymhwysedd meddyginiaeth nyrsys dyddiol" yn cael ei ychwanegu at y rhestr wirio ar-alwad efydd a gynhelir 3 gwaith yr wythnos ar draws y safle gan Reolwyr yr Unedau.	Rebecca Conlon	8/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi tymheredd oergelloedd meddyginiaeth.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd archwiliad ar hap o gofnodion tymheredd oergelloedd yn cael ei ychwanegu at y rhestr wirio ar-alwad efydd a gynhelir 3 gwaith yr wythnos gan Reolwyr yr Unedau.	Rebecca Conlon	8/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau priodol ar waith i ddsbarthu Cyffuriau a Reolir yn ystod shifftiau nos.	15. Rheoli meddyginiaethau	Yn dilyn trafodaeth â Fferyllfa Ashtons, bydd gweithwyr cymorth uwch yn cael eu hyfforddi.	Hazel Orr	Bydd hyfforddiant yn cychwyn ym mis Ionawr 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cofnodion Cyffuriau a Reolir yn cael eu cwblhau'n llawn.	15. Rheoli meddyginiaethau	<p>Pob nyrs barhaol a chronfa i gyflawni asesiad cymhwysedd meddyginiaeth</p> <p>Hepgoriadau i gael eu targedu wrth oruchwyllo gyda Chynlluniau Gwella Perfformiad yn ôl y gofyn</p> <p>Adolygu prosesau mewn meysydd yr amlygwyd eu bod yn dda yn ystod yr arolygiad a rhannu hyn fel arfer gorau ar draws y safle</p>	<p>Rheolwyr yr Unedau</p> <p>Rebecca Conlon</p>	<p>31/12/17</p> <p>31/12/17</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn archwilio dyddiadau terfyn meddyginiaeth yn rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad terfyn yn cael ei storio yn yr ysbyty.	15. Rheoli meddyginiaethau	Yr holl nyrsys parhaol a chronfa i gael ail-weinyddu cymhwysedd meddyginiaeth	Rheolwyr Unedau yr	31/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau cyfredol o bolisïau perthnasol ar gael ym mhob un o ystafelloedd clinig yr ysbyty.	15. Rheoli meddyginiaethau	Cafwyd gwared ar hen bolisïau. Cyhoeddwyd polisïau newydd ac fe'u harddangoswyd ym mhob ystafell feddyginiaeth.	Carla Rawlinson	Cwblhawyd
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cydgrynhoi'r cofnodion nyrsio, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gan sicrhau bod cyn lleied o ddyblygu â phosibl a chynnig mynediad haws at wybodaeth benodol.	20. Rheoli cofnodion	Mae gwybodaeth a chynlluniau gofal hybu iechyd sy'n cael eu cadw mewn ffeiliau iechyd corfforol ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys yn y prif gofnod iechyd yn dilyn trafodaeth gyda GIG Cymru	Rheolwyr Unedau yr	31/12/17
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan gleifion a gedwir Berthynas Agosaf sy'n cael ei adnabod.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Os nad yw'r perthynas agosaf wedi cael ei adnabod wrth dderbyn y claf, cysylltir â'r Gweithiwr Cymdeithasol/Cydgysylltydd Gofal/Comisiynydd i'w nodi. Caiff y wybodaeth hon ei diweddarau ar Live Data.	Lisa Knott	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnig copïau o'u papurau cadw i'r cleifion.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Rhodddwyd system ar waith pan dderbynnir claf fel y cynigir copi o'i bapurau cadw iddo os oes angen. Bydd hyn hefyd yn cael ei gyfleu i gleifion trwy lythyr wrth eu derbyn gyda'r ffurflen briodol i'w chwblhau.	Lisa Knott	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir gwybodaeth i gleifion am eu hawliau o ran meddyginiaeth.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Cafwyd gafael ar daflen o'r enw "Cydsynio i Driniaeth". Bydd y daflen hon yn cael ei rhoi i gleifion wrth eu derbyn a bydd y taflenni yn cael eu cynnwys yn ffeiliau nyrsio unigol y claf.	Lisa Knott	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir gwybodaeth i gleifion am eu hawliau o ran eu hadran gadw.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Caiff yr holl gleifion eu hysbysu am eu hawliau yn fisol. Bydd yr holl daflenni hawliau yn ffeiliau'r cleifion yn cael eu gwirio yn eu ffeiliau nyrsio. Awgrym i gael ei ychwanegu at y templed archwilio ffeiliau a ddefnyddir gan Reolwyr yr Unedau a Nyrsys Staff Uwch.	Lisa Knott, Rheolwyr yr Unedau a Nyrsys Staff Uwch	Archwiliad ffeiliau nesaf
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau	Monitro'r Ddeddf	Ysgrifennwyd at Reolwyr yr Ysbyty a siaradwyd â nhw am hyn ac fe'u	Lisa Knott	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod y rhesymeg sy'n sail i ganlyniad Gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty wedi ei chofnodi'n eglur ac a yw'r claf wedi cael ei hysbysu am y canlyniad.	Iechyd Meddwl	hatgoffwyd am y Cod Ymarfer. Bydd hwn yn cael ei gynnwys fel eitem yn yr archwiliad Deddf Iechyd Meddwl nesaf.	Lisa Knott	Archwiliad Deddf Iechyd Meddwl nesaf
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o bapurau cadw statudol yn cael eu ffeilio'n systematig a'u bod ar gael i staff y wardiau.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Darperir yr holl waith papur statudol i staff y ward i'w roi yn y ffeiliau nyrsio.	Lisa Knott	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y nodir yn eglur nad yw dogfennau sydd wedi dod i ben yn ddilys mwyach.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd e-bost a hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff y wardiau i sicrhau y bydd hyn yn cael ei wneud yn y dyfodol.	Lisa Knott	31/12/17
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwerthusiad yn erbyn meysydd y Cynllun Gofal a Thriniaeth yn ystyrlon ac yn adlewyrchu'r llwyddiannau neu'r anawsterau wrth fodloni'r rheini i hysbysu'r broses anghenion heb eu diwallu a chynllunio gofal pellach.	Cynllunio darparu gofal	Mae grŵp datblygu strategol wedi ei sefydlu bellach gyda chwmpas a chylch gorchwyl sy'n cynnwys maes targed a fydd yn mynd i'r afael â'r camau hyn fel y disgrifir isod: Proses a gytunwyd a fformat amlddisgyblaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer adolygu cleifion CTP/CPA sy'n cynnwys:	Andrew Hider / Carla Rawlinson	I'w adolygu ym mis Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Adrodd ar fesurau cynnydd gwrthrychol o ganlyniadau cleifion yn ystod y cyfnod ers y CPA/CTP diwethaf (h.y. eglurder ynghylch cynnydd ar hyd y llwybr triniaeth cyffredinol).</p> <p>Adrodd ar ganlyniadau mesurau canlyniadau clinigol ar gyfer yr holl driniaethau ac ymyriadau penodol a ddefnyddir.</p> <p>Adrodd ar ganlyniadau mesurau bodlonrwydd cleifion.</p> <p>Proses dryloyw ar gyfer defnyddio “pwyntiau penderfynu” clinigol gwrthrychol yng nghyswllt angen parhaus y claf am driniaeth a/neu yr angen i wneud paratodau ar gyfer pontio yn dilyn y CPA.</p> <p>Proses dryloyw ar gyfer defnyddio llwybr ail-ymgysylltu ar gyfer cleifion nad ydynt yn ymgysylltu â thriniaeth ac ymyrraeth</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		a ragnodwyd.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Cynllunio darparu gofal	a Awgrym i gael ei ychwanegu at dempled cofnodion y Tîm Amlddisgyblaeth o ran cofnodi unrhyw anghenion heb eu diwallu mewn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Ysgrifennydd Meddygol	15/12/17
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw bryderon yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Carla Rawlinson

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 1 Rhagfyr 2017